Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

Cyngor oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
16eg Tachwedd 2022

Cyngor ar grynodeb o'ch cynllun llesiant drafft

Diolch i swyddogion am gymryd yr amser i gwrdd â ni yn rheolaidd ac am rannu gwybodaeth yn ystod y cyfnod cyngor statudol o 14 wythnos. Mae cynnal trafodaethau cyfoethog gyda swyddogion ar y broses ddrafftio'r cynllun llesiant a ble fedrwn gynorthwyo'u syniadau ar feysydd allweddol megis mesur perfformiad wedi bod yn brofiad cadarnhaol.

Mae rhannu gwybodaeth yn gyson wedi ein galluogi i weld ble mae ein cyngor diweddaraf wedi cael ei adlewyrchu yn nrafftiau diweddaraf y cynllun llesiant, sydd yn awr yn gosod pedwar amcan llesiant ochr yn ochr â'r wyth cam trawsbynciol a fydd yn cyfrannu at yr holl gynllun llesiant.

Cryfderau Cyffredinol

Rydym yn croesawu'r defnydd o ddiagramau a delweddau yn y cynllun oherwydd eu bod yn helpu i gyfleu yn glir a chyfiawnhau'r amcanion a'r camau, a'r canlyniadau a'r effeithiau arfaethedig. Mae hyn yn golygu ein bod ni, a'r cyhoedd yn gallu gweld y meddylfryd hirdymor y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn ei fabwysiadu yn eu hymagwedd. O'r rhain, mae'r diagramau sy'n amlinellu 'sbardunau' yn arbennig o ddefnyddiol wrth amlinellu'r gwahanol strwythurau cymdeithasol sy'n cyfrannu at ganlyniadau llesiant cadarnhaol (neu negyddol). Hefyd, mae dangos sut mae pob un o'r amcanion yn cyd-fynd â'r Pum Dull o Weithio yn helpu'r darllenydd i weld sut y bydd y BGC yn cyflawni ei gynlluniau yn unol â'r ddeddf. I adeiladu ar hyn, byddai gweld sut mae'r amcanion yn cyflawni yn erbyn y nodau llesiant hefyd yn ddefnyddiol.

Yn yr un modd mae'r atodiadau'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ar y modd y cafodd y cynllun ei ddatblygu; yn amrywio o ddefnyddio'r Pum Dull o Weithio i'r asesiad a'r cyfnodau drafftio, ac integreiddio canfyddiadau â strategaethau ehangach a chyhoeddiadau (e.e. Yr Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2022). Cryfder pellach yw bod rhestr o aelodau'r BGC a phartneriaid ehangach wedi eu cynnwys sy'n helpu i sefydlu atebolrwydd a thryloywder yn y cynllun. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r defnydd o restr termau yn yr atodiadau i alluogi'r darllenydd i ddilyn unrhyw iaith neu jargon technegol.

I wella

Dylai'r holl amcanion gysyslltu â'r holl nodau llesiant i sicrhau nad oes yna unrhyw risg o wrthdaro rhwng y nodau. Mae'n bosibl bod rhai o'r amcanion yn alinio â, neu'n cyfrannu'n fwy uniongyrchol at rai nodau nag at eraill - felly ystyriwch newid yr iaith yma ryw ychydig. Rydym yn gallu gweld sut y bydd yr atodiad 'gwneud y cysylltiadau' yn galluogi integreiddio pellach a'r modd y bydd yn ddefnyddiol ar gyfer amlinellu'r modd y bydd y pum dull o weithio'n cael eu defnyddio, a fydd yn ei hanfod, yn canfod dull o facsimeiddio eich cyfraniadau i'r holl nodau llesiant gan ddatgelu, efallai, y cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer pob un o'ch amcanion.

Byddem yn hoffi gweld tystiolaeth bellach o'r modd y mae'r cynllun llesiant yn dangos cyfraniad i lesiant diwylliannol, yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg, a Chymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang. Nid yw'r amcan "i gynorthwyo datblygiad Cynnig Diwylliannol integredig yn Abertawe" ar hyn o bryd yn cysylltu'n uniongyrchol yn y naratif, y sbardunau na'r camau cyfatebol. Mae'n bwysig i nodi y byddem yn annog yr ymgynghoriad cyhoeddus i fod yn gyfle i weithredu ar argymhelliad yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol i "ennyn ymgyfraniad y celfyddydau, iaith a gweithwyr proffesiynol diwylliannol a sefydliadau wrth iddynt osod eu hamcanion a'u camau. Hefyd, i ddangos y modd y bydd y BGC yn cynorthwyo ffoaduriaid yn Abertawe gallai'r cynllun adeiladu ar y camau ar hawliau dynol, a thrwy hyn gyfrannu at y nod "Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang".

Tra'n bod yn croesawu rhoi'r camau a'r amcanion yn eu cyd-destun, byddai'n fuddiol pe bai'r cynllun yn cynnwys mwy o fanylion am y modd y mae'r asesiad llesiant wedi dangos tystiolaeth ohonynt. Mae o gymorth i drigolion gael gwybod sut mae eu mewnbwn blaenorol wedi bod yn ddefnyddiol, ac mae'n sicrhau tryloywder y broses o droi'r asesiad yn gynllun ac amcanion.

Mae'r camau trosfwaol yn syniad da, fodd bynnag byddai'r cynllun ar ei welliant pe bai yna ddiagram neu ddelweddau sy'n dangos sut y bydd y camau'n cyfrannu at yr amcanion fel y sicrheir rhywfaint o gysylltiad rhesymegol.

Rydym yn ymwybodol o'r tensiynau sy'n bodoli wrth ddatblygu cynllun llesiant ar gyfer y BGC fel cynllun cydweithredol, ac na ddylid ei bwysoli ar yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, byddem yn argymell eich bod yn cyfeirio at strategaethau a pholisïau presennol pob sefydliad sy'n aelod o'r BGC a fydd yn cefnogi cyflawniad eich amcanion ac egluro - tra nad yw'n amcan/cam penodol - nad yw hwn yn fwlch yn y ddarpariaeth e.e. rydym wedi trafod bod Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi cynghori y dylai eich cynllun llesiant gyd-fynd â'ch Strategaeth Hybu'r Gymraeg, a gallai hyn fod yn ddefnyddiol i chi wrth nodi pa bartneriaid lleol i ymgysylltu â nhw. Rydym wedi atodi adnoddau Comisiynydd y Gymraeg 'Ystyried y Gymraeg yn y Cynlluniau Llesiant Lleol' a 'safonau sy'n ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg' a fyddant, gobeithio, yn ddefnyddiol i chi. Os byddwch yn dymuno, gallwch adeiladu ar yr adran ar 'grynodeb o gynnydd' o'ch cynllun llesiant blaenorol i ddangos lle bydd gwaith sefydledig yn parhau yn yr un modd ag arfer i gefnogi cyflawniad eich cynllun llesiant presennol.

Eich Amcanion Llesiant Drafft

Blynyddoedd cynnar: i sicrhau bod plant yn Abertawe yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd i fod y gorau y gallant fod.

Rydym yn croesawu'r ffaith fod y BGC yn ffocysu ar y blynyddoedd cynnar, gyda chydnabyddiaeth o oblygiadau hirdymor profiadau plentyndod cynnar.

I adeiladu ar yr amcan hwn, byddai'n fuddiol pe bai'r BGC yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth glir am yr angen i atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs). Mae Pennod Pedwar adroddiad cenedlaethau'r dyfodol yn ymdrin â'r pwnc hwn yn fanwl gydag argymhellion ar sut i osod amcanion ar hyn megis "Gosod amcanion llesiant ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod sy'n manteisio ar gyfleoedd i weithio gyda phartneriaid y tu hwnt i wasanaethau traddodiadol, ac ystyried sut y gallwch, drwy wneud hyn, gyflawni amcanion a nodau llesiant eraill." Bydd hyn yn arbennig o ddefnyddiol i ddeall sut y gallai'r amcan hwn hefyd gyfrannu at Gymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu, a Chymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang. Hefyd, er bod y diagram sbardunau yn

awgrymu rhywfaint o ddealltwriaeth o'r modd y mae profiadau plentyndod yn croestorri â materion ehangach, byddai'n fuddiol pe bai'r cynllun yn rhoi peth amlinelliad o'r rhain, megis cysylltiadau â'r camau sy'n trafod bioamrywiaeth, mannau gwyrdd, penderfynyddion cymdeithasol iechyd ehangach.

Dylai'r sbardunau fynd y tu hwnt i'r datganiad bod "rhieni wedi'u paratoi'n dda ar gyfer genedigaeth" gan ymwneud hefyd â'u cefnogi fel rhieni, e.e. absenoldeb mamolaeth teilwng a mynediad i ofal plant a chymorth i gyflwr meddyliol rhieni newydd. Rydym yn hapus i gysylltu â sefydliadau a grwpiau fel Home Start Cymru a fydd yn gallu darparu mewnwelediad gwerthfawr yn ystod eich ymgynghoriad cyhoeddus.

Byw yn Dda, Heneiddio'n Dda: I wneud Abertawe yn lle gwych i fyw ynddo drwy holl gyfnodau bywyd

Rydym yn croesawu'r ffaith fod y BGC yn ystyried llesiant drwy bob cyfnod bywyd, gan gydnabod pwysigrwydd y blynyddoedd cynnar yn ogystal â phwysigrwydd system ofalu gynaliadwy ac effeithiol. I wella'r amcan hwn, gallai'r naratif gwmpasu'r boblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru a sut y bydd hyn yn effeithio ar ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn Abertawe. Gallai hyn gysylltu'n dda ag anghenion sgiliau'r dyfodol, ac unrhyw fyfyrdodau ar yr hyn y mae pandemig Covid-19 wedi'i ddangos i ni am anghydraddoldebau iechyd ac ymgyfraniad cymunedol mewn cymorth iechyd.

Mae'r cam hwn yn gwneud yn dda i gwmpasu pwysigrwydd ymagwedd integredig tuag at ymdrin ag iechyd a llesiant, gan ystyried ffactorau economaidd ochr yn ochr â materion fel cyfranogiad dinesig. Serch hynny, byddem yn annog ehangu'r term "cael digon o arian i fyw arno" neu "y gallu i wneud penderfyniadau" i rywbeth mwy uchelgeisiol, megis "y gallu i wneud y pethau sy'n bwysig a chadw dinasyddion yn iach". Gallai hyn fod yn ffordd o wneud mynediad i weithgareddau diwylliannol yn rhan annatod o'r cam hwn.

Adfer Hinsawdd a Natur: Gwella iechyd, cynyddu bioamrywiaeth a lleihau effaith newid hinsawdd

Mae'n gadarnhaol bod tystiolaeth dda o integreiddio'n cael ei ystyred yn y rhaglith – e.e. sut y gall amgylchedd gwarchodedig gefnogi llesiant corfforol a meyddiol da. Rydym yn croesawu'r myfyrio ar fannau glas yn ogystal â mannau gwyrdd fel rhai sy'n bwysig i fioamrywiaeth Abertawe, ochr yn ochr â'r rôl sydd gan fannau glas a gwyrdd yn y dasg o gefnogi llesiant meddyliol a chorfforol.

Rydym yn croesawu'r ffaith fod y BGC, o dan yr amcan sy'n ymwneud ag Argyfwng Hinsawdd a Natur, yn ystyried y gwahanol sbardunwyr sydd wrth wraidd gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau, a hefyd yn ystyried lleihau allyriadau carbon. Ochr yn ochr â hyn, mae cam uniongyrchol yn ymwneud â sut y bydd y BGC yn gweithio i leihau allyriadau carbon a chyflawni ymrwymiadau Sero Net 2030. Serch hynny, byddem yn annog y BGC i fynd ymhellach ac ystyried datblygu camau / gweithredu penodol ar:

- Yr economi cylchol: sut y gall partneriaid BGC leihau defnydd, gynyddu cyfraddau ailddefnyddio ac ailgylchu, a lleihau'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, gan ystyried unwaith eto y gall pob un o'r nodau ganfod cyfleoedd e.e. sut y gallai hyn gyfrannu at gymunedau cydlynol trwy gaffis atgyweirio ac ati.

- Gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau: mae'n galonogol i weld bod Amcan 3 yn ystyried pwysigrwydd mannau gwyrdd a glas. Byddai'r cynllun llesiant yn cael ei gryfhau pe bai'r camau'n cynnwys camau ar sut y bydd partneriaid y BGC yn gweithio i warchod a gwella bioamrywiaeth yn yr ardal.
- Ystyried sut y gellir defnyddio dulliau cydweithredol o weithio (e.e. caffael) i wella allyriadau carbon a'r economi cylchol. Gellir integreiddio hyn hefyd i allbynnau sy'n ymwneud â gwariant lleol a hybu Economi Sylfaenol Abertawe.

Cymunedau Cryf: Adeiladu cymunedau cydlynol gydag ymdeimlad o berthyn

Mae'r amcan hwn yn integreiddio nifer o faterion gan gynnwys trosedd a diogelwch, iechyd, ymgyfraniad (ymddiriedaeth rhwng pobl a sefydliadau), sgiliau a'r iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu'r ffaith fod yna lawer o feysydd ffocws o fewn yr amcan hwn, ac mae gosod 'camau trawsbynciol' yn gweithio'n dda o dan y thema hon.

I wella'r amcan llesiant hwn byddem yn argymell diwygio'r iaith sy'n ymwneud â 'goddefgar' yn y paragraff agoriadol gan ei fod yn awgrymu bod yna rywbeth drwg sydd angen ei oddef. Gall y byddwch yn dymuno ystyried newid hyn i "meddwl agored", "croesawgar" neu "gynhwysol".

Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth bod "pobl yn cyrchu'r holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo" o dan 'sbardunwyr sylfaenol'. Mae yna lawer o bobl nad ydynt yn cyrchu'r cymorth sy'n ddyledus iddynt, a gall hyn wneud gwahaniaeth sylweddol i lesiant preswylwyr. Fodd bynnag, gellid gwneud hyn yn fwy uchelgeisiol megis drwy gysylltu ymhellach â'r Cyflog Byw Gwirioneddol, a chydnabod hefyd bod llawer o unigolion sydd mewn tlodi yn gweithio ac hefyd yn cael cymorth lles.

Gan adeiladu ar y cam hwn, byddai'n fuddiol pe bai cyfranogiad dinesig (e.e. pleidleisio, trefnu, ac aelodaeth o undebau llafur) yn cael ei gynnwys o dan 'gymunedau cysylltiedig'. Mae hyn yn cysylltu'n ôl â dinasyddion yn ymgysylltu â gwella eu cymunedau, ac yn teimlo'u bod yn gallu trwytho'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Fel y nodwyd, rydym yn croesawu'r ffaith fod pob amcan yn cwmpasu'r pum dull o weithio. O dan yr amcan hwn byddem yn eich annog i adolygu atal – yn ogystal â chefnogi pobl; gallai'r disgrifiad hwn gynnwys y modd y bydd cymunedau a gwasanaethau'n cael eu dylunio trwy brofiad bywyd i atal problemau a rhwystrau yn y dyfodol.

Eich Camau Llesiant Drafft

Grymuso ac ennyn ymgysylltiad Abertawe yn y dasg o weithio ar bontio teg tuag at Sero Net ac Adfer Natur gan fabwysiadu ymagwedd seiliedig ar natur i ddod o hyd i ddatrysiadau lle bo modd.

Fel y nodwyd yn y cynllun llesiant ac yn ein cyfarfodydd gyda chi, bydd y camau'n drawsbynciol ac felly'n eistedd ar draws yr holl amcanion. Rydym yn croesawu'r ymagwedd hon ac rydym yn falch o weld y BGC yn cydnabod bod yr argyfwng natur a hinsawdd yn eistedd ar draws pob elfen o lesiant, a darpariaeth BGC.

Mae'r cam yn nodi y bydd yn 'ehangu ac amrywio natur llofnodwyr Siarter hinsawdd a natur Abertawe'. Mae'r bwriad o gynnwys llawer o randdeiliaid yn y mater hwn i'w ganmol, ac i adeiladu ar hyn byddem yn argymell ennyn ymgyfraniad grwpiau cymunedol yn y tymor byr a'r hirdymor er mwyn helpu i ganfod camau gweithredu. Byddai lle hefyd i gysylltu'r cam hwn a'r camau gweithredu

dilynol ag iteriad diweddaraf yr Adroddiad Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol, sy'n manylu ar sut mae'r argyfwng hinsawdd yn debygol o waethygu'r anghydraddoldebau presennol yng Nghymru.

O dan y 'tymor canolig' a'r 'hirdymor' mae'r cynllun yn amlinellu y bydd gwaith cydweithredol yn arwain at gamau gweithredu effaith uchel. Mae'n gadarnhaol bod y ffyrdd o weithio i'w gweld yn glir yma (e.e. cydweithio, ymgyfrannu, integreiddio) – fodd bynnag, i wella hyn hoffem weld mwy o wybodaeth am yr hyn y mae'r BGC yn ei ystyried yn 'effaith uchel' a rhywfaint o uchelgais ehangach megis sut y bydd camau gweithredu'n cael eu hadnabod. Hoffem hefyd weld rhywfaint o ystyriaeth o sut mae natur a hinsawdd yn effeithio ar ei gilydd, ond gall datrysiadau fod yn wahanol – e.e. mae datgarboneiddio yn wahanol i warchod bioamrywiaeth. Roedd y sgyrsiau a gawsom yn ystod y cyfnod cynghori yn gadarnhaol ar hyn; byddem yn croesawu'r manylion pellach.

Dod yn Ddinas Hawliau Dynol gan rymuso dinasyddion ym mhob cyfnod o gwrs bywyd

Mae'r gwaith y mae partneriaid BGC Abertawe yn ei wneud ar yr agenda hawliau dynol i'w ganmol o safbwynt ymgyfraniad, arloesedd a llesiant. I adeiladu ar hyn hoffem weld sut mae agenda Dinas Hawliau Dynol yn integreiddio â materion ehangach fel newid hinsawdd, ac anghydraddoldebau. Byddai lle hefyd i gysylltu hyn â gwaith ar:

- Droseddau casineb a gwaith gwrth-hiliaeth
- Ffoaduriaid a Chymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang
- Trais yn y cartref a diogelwch cymunedol
- Llesiant diwylliannol
- Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod e.e. ymagwedd tuag at Hawliau Plant

Er mwyn adeiladu ymhellach ar y cam hwn, hoffem weld rhywfaint o gynnwys yma am gynrychiolaeth o fewn y gweithlu a phrosesau democrataidd, er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau. Gallai hyn helpu i sicrhau bod penderfyniadau wrth symud ymlaen yn dileu, yn hytrach nag ymwreiddio, y rhwystrau i gyrchu hawliau.

Gellid defnyddio'r cam hwn hefyd i ddangos ymrwymiad y BGC i Gymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang drwy ychwanegu manylion ar sut y bydd yr Ymagwedd Hawliau Dynol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi ffoaduriaid. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried y digwyddiadau yn Afghanistan a'r Wcrain eleni, ochr yn ochr â'r effaith a ragwelir y bydd materion fel newid hinsawdd yn debygol o'i gael ar ffoaduriaid ac aflonyddwch byd-eang.

Dylanwadu a chysylltu â threfniadau llywodraethu a phartneriaethau eraill i sicrhau bod llesiant yn cael ei integreiddio ar draws Abertawe

Rydym yn croesawu ei bod yn glir yn y cynllun llesiant drafft hwn, ac yn ein cyfarfodydd, fod y BGC yn defnyddio proses y cynllun llesiant a'r asesiad i fyfyrio'n feirniadol ar y trefniadau llywodraethu cymhleth yng Nghymru a sut y gall y BGC ymdopi â'r rhain i gyflawni yn erbyn eu hamcanion yn effeithlon. Ymhellach, mae cydnabyddiaeth dda bod y dull hwn o gydweithio yn bwysig er mwyn sicrhau bod llesiant yn cael ei integreiddio ar draws darpariaeth partneriaid. I adeiladu ar hyn, byddai'n ddefnyddiol i weld dealltwriaeth o'r natur hyblyg y bydd angen i unrhyw "fframwaith partneriaeth wedi'i fapio a'i ddiffinio'n glir" ei chael yn y dyfodol wrth i ddatganoli, ffiniau gwleidyddol a chyd-destun ehangach (e.e. yr argyfwng hinsawdd) effeithio ar y strwythurau hyn .

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

Symud datblygu data yn ei flaen i wella proses benderfynu partneriaid yn Abertawe

Mae rhannu data a gwybodaeth yn elfen bwysig ar gyfer sicrhau bod y BGC, partneriaid a chydweithredwyr ehangach yn gallu penderfynu mewn dull gwybodus, cyflawni effeithiau uchel, ac o bwys arbennig, ddysgu o heriau a chryfderau sy'n bodoli mewn mecanweithiau darparu presennol.

I adeiladu ar hyn byddai'n ddefnyddiol pe bai'r BGC yn ehangu ar y modd y byddant yn integreiddio'r pum dull o weithio drwy:

- Ymgyfraniad : sut fydd lleisiau dinasyddion yn cael eu gwneud yn rhan annatod o gasgliadau data, a sut fydd partneriaid yn sicrhau bod pobl ag hunaniaeth ymylol yn cael eu cynnwys yn y data?
- Cydweithio: pa fecanweithiau llywodraethu fydd eu hangen i sicrhau bod data'n cael ei rannu mewn modd defnyddiol, moesegol a hygyrch?
- Integreiddio: sut y bydd partneriaid yn sicrhau nad yw data'n cael ei gadw mewn seilos– e.e. bod data ar berygl llifogydd yn cael ei integreiddio ag ystadegau tlodi?
- Atal: sut bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i drwytho penderfyniadau yn y dyfodol ac atal canlyniadau llesiant negyddol?
- Hirdymor: sut y caiff y data ei fapio yn erbyn tueddiadau ehangach, hirdymor i sicrhau bod penderfyniadau bob amser yn flaengar? Sut bydd dysgu myfyriol yn cael ei wneud yn rhan annatod o'r dulliau hyn o weithio?

Datblygu fframwaith mesur i ddarparu adborth ar gynnydd yn effeithiol ac yn effeithlon

Rydym yn croesawu'r ffaith fod y BGC wedi gwneud prosesau dysgu myfyriol yn rhan hanfodol o'i dull o wella'i darpariaeth. Yn unol â'r cyngor uchod, byddem yn eich annog i fyfyrio ar sut y gellir gwneud y 'pum dull o weithio'n rhan annatod o unrhyw brosesau casglu data. Gyda dysgu myfyriol ar effaith, mae ymgyfraniad dinasyddion yn allweddol a byddem yn argymell gweithredu / camau i gynnwys cyfleoedd i breswylwyr gydgynhyrchu cynllun rhaglen / gwasanaeth, a hefyd y dulliau ymgysylltu a ddefnyddir. Mae'n bwysig i ystyried prosesau ymgysylltu/ymgyfrannu fel effaith defnyddiol yn hytrach na gweithgaredd "untro". Gall technegau ymgyfrannu effeithiol gael effeithiau hirdymor i'r rhai sy'n cymryd rhan – e.e. peri iddynt deimlo eu bod yn cael effaith ar eu bywydau bob dydd ac yn helpu i lunio eu cymuned.

O dan y cam canolig 'gwella adroddiadau ar weithredu sy'n seiliedig ar allbwn, ac archwilio opsiynau ansoddol', gellid ychwanegu mwy o fanylion yma ynghylch pa fath o adrodd sy'n debygol o gael ei gynnwys. Gall y bydd canllawiau statudol ar fesur allbynnau ac olrhain cynnydd yn ddefnyddiol wrth adolygu'r prosesau hyn.

Cefnogi holl wasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar ar eu taith drawsnewidiol i wella'r dull o gefnogi plant i gael y cychwyn gorau mewn bywyd"

Mae gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar yn ffordd bwysig o leihau anghydraddoldebau a pharatoi pobl ar gyfer bywyd hir ac iach. Mae'n gadarnhaol felly fod y BGC yn cydnabod hyn ac wedi cynnwys hyn fel cam penodol. Mae'r camau tymor byr, canolig a hirdymor yn cynnwys lefel dda o fanylion yn nhermau sefydlu fframweithiau mesur a sut y cânt eu defnyddio wrth symud ymlaen.

I adeiladu ar hyn, byddai cynnwys gweledigaeth o natur darpariaeth blynyddoedd cynnar yn beth da – gellid gosod hyn yn erbyn y sbardunwyr a ganfuwyd e.e. pa rwystrau y mae'n eu lleihau, a beth yw'r canlyniadau i blant a theuluoedd a sut mae'r cam hwn yn effeithio ar ganlyniadau llesiant eraill (e.e. cymunedau mwy diogel). Gan fod hwn yn barhad o gam o'r cynllun llesiant blaenorol, hoffem i'r BGC fynegi sut mae'r cynllunio ar y cyd a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd yn awr yn wahanol i'r hyn yr ydych wedi'i wneud o'r blaen wrth ystyried dysgu myfyriol ac unrhyw newidiadau demograffig rydym wedi eu gweld yn ein cymunedau ers 2017. Mae gennym ddiddordeb yn y modd y mae BGCau yn addasu'r ffyrdd y maent yn gweithio gyda'i gilydd gan ddefnyddio'r Ddeddf fel lens ar gyfer cynllunio, herio a gwerthuso camau gweithredu, ac archwilio; a yw camau gweithredu'n addas ar gyfer y dyfodol, pwysau allweddol a thensiynau wrth gyflawni,

Cyfrannu at Abertawe fwy diogel, gydlynol a llewyrchus

Mae'r cam hwn yn integreiddio'n dda â'r amcanion ac yn adlewyrchu iaith y Ddeddf yn uniongyrchol. Croesawn yn arbennig y modd y mae camau tymor byr, canolig a hirdymor i gyd yn myfyrio ar strategaethau a phartneriaethau presennol. I adeiladu ar hyn hoffem weld mwy o fyfyrio ar sut y bydd y BGC yn cynnwys cymunedau wrth ddatblygu eu gweithgareddau yma, a chyfuno hyn gyda herio hiliaeth a lleihau troseddau casineb. Mae'n dda gweld y cam tymor canolig yn cyfeirio at y rôl y gall y BGC ei chwarae fel eiriolwr a chysylltydd; byddem hefyd yn annog y BGC i chwarae rôl 'cyfaill beirniadol' i helpu byrddau cydweithredol eraill i ddefnyddio'r Ddeddf fel lens y gellir drwyddi nodi cyfleoedd.

Cefnogi datblygiad Cynnig Diwylliannol integredig yn Abertawe

Mae gan gynnig diwylliannol cryf y cyfle i gyflwyno ystod o fanteision llesiant i ddinasyddion Abertawe. Mae'r cam yn adlewyrchu hyn, drwy gyfeirio at iechyd a chydlyniant cymunedol. I adeiladu ar hyn byddai'n dda gweld:

- Camau gweithredu penodol perthnasol i'r Gymraeg a sut y gellir integreiddio hyn i'r camau eraill – e.e. sut y gall darpariaeth Blynyddoedd Cynnar hybu defnydd o'r Gymraeg.
- Cydweithredwyr ehangach – megis Cyngor Celfyddydau Cymru, ymarferwyr y Gymraeg, a sefydliadau/lleoliadau trydydd sector a'r sector preifat.
- Cyfle a gynigir gan y celfyddydau a diwylliant i feithrin cydlyniant cymunedol e.e. fel cyfle i rannu profiadau bywyd gwahanol bobl yn Abertawe.
- Myfyrio ar effaith argyfyngau diweddar a chyfredol megis pandemig Covid-19 ar sector y celfyddydau.
- Sut y gall y cynnig diwylliannol integreiddio â'ch amcanion a'ch camau ar Sero Net ac Adfer Natur. Gweler, er enghraifft, waith newydd y Ganolfan Dechnoleg Amgen ar greu strategaeth newydd ar gyfer yr hinsawdd a'r celfyddydau.
- Sut y gellir gwneud gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn fwy hygyrch i'r rhai a allai fod yn wynebu rhwystrau megis pobl ag anableddau synhwyraidd, neu bobl ar incwm isel.

Y Pum Dull o Weithio

Rydym yn croesawu'r ffaith fod y cynllun llesiant yn cymryd amser i egluro beth yw'r pum dull o weithio, a sut mae pob un yn berthnasol i'r amcanion gwahanol. Mae hyn yn dangos bod y BGC yn deall y Ddeddf yn glir ac yn defnyddio'r iaith mewn modd clir. Mae'r dadansoddiad hwn o'r pum dull o weithio'n canolbwyntio ar y modd y maent yn rhan hanfodol o'r camau a amlinellir yn y Cynllun.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

Ymgyfraniad

Yn ein cyfarfodydd, rydym wedi treulio amser yn trafod rôl lleisiau cymunedol a chyd-gynhyrchu wrth lunio'r cynllun llesiant a'i gyflwyniad dros y pum mlynedd nesaf. Roedd yn gadarnhaol eich bod mewn cyfarfodydd diweddar wedi trafod cynllun ymgysylltu ar gyfer yr ymgynghoriad ar y cynllun llesiant drafft – sy'n awgrymu y bydd y canlyniadau'n arwyddocaol ac y bydd y camau hyn yn cael eu ffurfio ymhellach gan gyfranogiad ac ymgysylltiad dinasyddion.

Serch hynny, byddai'n fuddiol pe bai'r camau a'r amcanion yn gwneud ymgyfrannu yn rhan annatod o'u holl ddisgrifiadau. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys sefydlu grwpiau dinasyddion i helpu i lunio a dylunio. Bydd ymgysylltu â Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru wrth i chi ddatblygu a chwblhau eich cynllun ymhellach yn ddefnyddiol.

Cydweithio

Trwy gydol y ddogfen mae'r cynllun yn amlinellu'r gwahanol ddulliau y mae'n bwriadu eu defnyddio i wneud gweithio mewn partneriaeth gydweithredol wrth gyflawni'r amcanion yn rhan annatod o'r camau. Mae hefyd yn amlwg o'n cyfarfodydd bod BGC Abertawe wedi bod yn myfyrio ar rôl y BGC yn y dasg o ychwanegu gwerth at bartneriaethau presennol a phwysigrwydd gwahaniaethu rhwng gwahanol gyfrifoldebau – e.e. meysydd y gall partneriaid BGC eu cyflawni'n uniongyrchol yn hytrach na'r meysydd lle gallai fod yn rhaid i'r BGC weithio gyda phartneriaid i ddylanwadu ar wneud penderfyniadau. Mae hefyd yn gadarnhaol, fel y nodwyd uchod, bod partneriaid y BGC hefyd wedi'u rhestru.

Gan adeiladu ar hyn, byddem yn eich annog i ychwanegu rhagor o fanylion at y camau i ystyried atebolrwydd uniongyrchol. Gallai hyn gynnwys amlinellu pa bartneriaid neu is-grwpiau BGC sy'n ysgwyddo gwahanol gyfrifoldebau am y camau, drwy wneud cysylltiadau o ran pa bartneriaid sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni mewn modd cydweithredol.

At hynny, byddem yn annog cydweithredu ehangach i ehangu cwmpas partneriaid sy'n darparu llesiant yn yr ardal. Gallai hyn gynnwys gweithio gyda sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat wrth weithredu camau. Bydd hefyd yn bwysig i'ch BGC ystyried ystod o opsiynau cydweithredol sy'n torri ar draws ffiniau sefydliadol (ac o bosib, sectorau). Gallai hyn gynnwys cydleoli staff, chwalu strwythurau traddodiadol, trefnu cyfnewid swyddi a secondiadau a chyfuno adnoddau.

Integreiddio

Mae'r Ddeddf yn nodi y dylai amcanion llesiant gael eu hintegreiddio, e.e. dylech ystyried y modd y mae eich amcanion amgylcheddol, diwylliannol, economaidd a chymdeithasol yn croestorri ar draws gwahanol faterion.

Mae'r camau, yr amcanion a'r disgrifiadau yn dangos ystyriaeth dda o integreiddio – er enghraifft cydnabod bod yr holl gamau'n cyfrannu at yr holl amcanion. Serch hynny, byddai'n fuddiol pe bai'r mecanweithiau hyn yn cael eu hesbonio'n fanylach, naill ai mewn testun neu ddiagram.

Mae'r diagramau sbardun a'r rhaglith yn gwneud yn dda i ddangos rhai o'r rhyng-gysylltiadau rhwng y gwahanol faterion. Er enghraifft, o dan 'Pobl yn Byw yn Dda a Heneiddio'n Dda' cydnabyddir goblygiadau hirdymor pobl yn byw 'mewn cartrefi diogel o ansawdd da' – yn nhermau teimlo'n ddiogel yn eu cymuned a chanlyniadau iechyd. Er enghraifft, mae'n amlwg bod y cam "I gefnogi holl wasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar ar eu taith drawsnewidiol i wella'r dull o gefnogi plant i gael y cychwyn gorau mewn bywyd" yn cyfrannu at "Mae pobl yn byw'n dda ac yn heneiddio'n dda", ond byddai gweld sut mae'n cysylltu â nodau eraill fel yr argyfwng hinsawdd a natur yn beth da.

Hirdymor

Er bod yna bwysau a heriau arwyddocaol yn y presennol, megis argyfwng costau byw, rydym yn pwysleisio pwysigrwydd archwilio a datblygu datrysiadau tymor hwy a fydd yn helpu'r BGC i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol a lliniaru effeithiau yn eich cymunedau. Fel y dywed y canllawiau statudol ar gyfer BGCau (SPSF3) *'Dylid sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cyflawni ar gyfer y tymor byr a gwneud hynny yng nghyd-destun blaenoriaethau ar gyfer yr hirdymor.'*

Rydym yn croesawu bod y cynllun yn dyfynnu'r iteriad diweddaraf o'r Adroddiad Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol, tra bod eich asesiad llesiant hefyd wedi gwneud yn dda i ystyried tueddiadau hirdymor ar draws gwahanol ddimensiynau llesiant a sut mae trigolion yn debygol o gael eu heffeithio ganddynt.

Mae'n gadarnhaol bod eich cynllun llesiant drafft yn ymdrin â chamau yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor, ac yn ein cyfarfodydd rydych wedi bod yn glir wrth nodi y bydd elfennau tymor hwy y camau yn hyblyg er mwyn caniatáu ar gyfer newidiadau cyd-destun, polisi ac/neu wybodaeth newydd. Fodd bynnag, byddem yn annog y BGC i ystyried 'hirdymor' y tu hwnt i "5+ mlynedd" ac yn hytrach edrych ymhellach ymlaen efallai at y targed o gyrraedd allyriadau carbon sero net yng Nghymru erbyn 2050 a beth allai'r goblygiadau fod i'r camau gweithredu y gall y BGC eu cymryd yn awr.

Atal

Mae'r cynllun llesiant drafft yn dangos yn glir bod y BGC yn deall natur systemig llesiant a bod newid yn gymhleth ac yn cymryd amser. Mae'r diagramau sbardun yn awgrymu eich bod yn deall achosion sydd wrth wraidd problemau yn hytrach na'r symptomau'n unig, a sut y gall rhai cylchoedd o ganlyniadau llesiant negyddol (e.e. tlodi ac afiechyd) gael eu tanseilio.

Isod wele ddiffiniad o atal a allai fod yn ddefnyddiol i greu cyd-destun a'ch helpu i roi eich meddwl ar waith:

- **Atal sylfaenol** – Adeiladu cydnerthedd – creu'r amodau lle nad yw problemau'n codi yn y dyfodol. Ymagwedd fyd-eang.
- **Atal Eilaidd** - Targedu gweithredu tuag at feysydd lle mae perygl mawr fod problem yn mynd i ddigwydd. Ymagwedd wedi ei thargedu, sy'n uno egwyddorion cyffredinoliaeth flaengar.
- **Atal Trydyddol** - Ymyrryd os oes problem, i atal y broblem rhag gwaethygu a'i hatal rhag digwydd eto yn y dyfodol. Ymagwedd seiliedig ar ymyrraeth.
- **Gwariant aciwt** - Gwariant, sy'n gweithredu i reoli effaith sefyllfa hynod negyddol ond nad yw'n gwneud llawer neu'n gwneud dim byd i atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol. Ymagwedd adferol.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

Crynodeb o gysylltiad rhwng BGC Abertawe â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn ystod y Cyfnod Cynghori 14 wythnos.

Dyddiad	**Cyfarfod**	**Sylwadau**
16eg Awst 2022	Ebost	Mae'r cyfnod cyngor 14 wythnos yn cael ei sbarduno gan FGC Abertawe, a sefydlwyd y pwyntiau cyswllt allweddol gennym: - Elle Henley-Herat a Jenny McConnel o Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol - Suzy Richardson o FGC Abertawe
6ed Medi 2022	Cyfarfod	Cyfarfod cychwynnol i drafod proses y cyfnod cynghori 14 wythnos a'r dull yr hoffai BGC Abertawe a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ei fabwysiadu wrth fynd rhagddynt
6ed Medi 2022	Ebost oddi wrth Abertawe	Rhannu papurau oddi wrth weithdy'r Cydbwyllgor.
11eg Hydref 2022	Ebost oddi wrth OFGC	Rhannu: - Diffiniad o atal - Adnoddau ar gyfer mesur perfformiad e.e. Thriving Places Index
17eg Hydref 2022	Cyfarfod	Trosolwg o'r ymagwedd a fabwysiadwyd gan FGC Abertawe; roedd y trafodaethau'n cynnwys natur integredig y camau llesiant ar draws yr holl amcanion.
18fed Hydref 2022	Ebost oddi wrth OFGC	Darparu gwybodaeth yn cynnwys: - Cyngor interim ar amcanion drafft - Penodau'r Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol oedd o berthnasedd arbennig - Crynodeb o'r argymhellion o Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol - Ein fframweithiau ar gyfer craffu a phrosiectau. - Papur Cyfoeth Naturiol Cymru ar 'Mynd i'r afael ag Argyfyngau Natur a Hinsawdd: Crynodeb o'r Camau i'w cymryd ar ran Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. -
25ain Hydref 2022	Ebost oddi wrth Abertawe	Diweddaru cynnydd, gofyn am gyngor ar fformat y cynllun drafft ar gyfer ymgynghori cyhoeddus, gan rannu cynllun llesiant drafft a chynllun ymgysylltu
25ain Hydref 2022	Ebost oddi wrth OFGC	Ymateb i'r cais am gyngor
31eg Hydref 2022	Ebost oddi wrth Abertawe	Rhannu drafft wedi ei ddiweddaru a chynllun ymgysylltu
2ail Tachwedd 2022	Cyfarfod	Dal i fyny am y tro olaf lle rhoesom rywfaint o adborth cychwynnol, a chymerodd Suzy amser i egluro unrhyw newidiadau rhwng y drafftiau a anfonwyd ymlaen.

3ydd Tachwedd 2022	Ebost oddi wrth OFGC	Rhoi cyngor a gwybodaeth yn cynnwys: - Cyngor ac adroddiadau oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg. - Ein syniadau polisi hirdymor i amddiffyn yn erbyn argyfyngau costau byw yn y dyfodol.